OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1549 (Cy. 184)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Pool Road, Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym* | *19 Gorffennaf 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Gorffennaf 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Pool Road, Y Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 19 Gorffennaf 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol; ac

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd a elwir Pool

Road yn y Drenewydd yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 140 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt cyffordd yr A483/A489 Kerry Road hyd at bwynt 62 o fetrau i'r de o gyffordd Tesco.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y mae'n cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Gorffennaf 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.